**WHC/2023/09**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad cyhoeddi:** 06/04/23

**STATWS: GWEITHREDU / GWYBODAETH**

**CATEGORI: IECHYD CYHOEDDUS**

**Teitl:** Brechu plant 6 mis oed i 4 oed sydd mewn grŵp risg clinigol rhag COVID-19

**Dyddiad dod i ben/Dyddiad yr Adolygiad:** Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**
Brif Weithredwyr, Ymddiriedolaethau / Byrddau Iechyd
Arweinwyr Imiwneiddio, Ymddiriedolaethau / Byrddau Iechyd
Cydgysylltwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd
Arweinwyr Brechu rhag COVID-19, Ymddiriedolaethau / Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol, Ymddiriedolaethau / Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaethau / Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Ymddiriedolaethau / Byrddau Iechyd
Prif Fferyllwyr, Ymddiriedolaethau / Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Ymddiriedolaethau / Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwr Cynllunio, Uned Gyflawni GIG Cymru
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Cyngor yr Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru
Ymarferwyr Cyffredinol
Fferyllwyr Cymunedol

**Anfonwr:** Dr Frank Atherton, Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru:**
Yr Is-adran Frechu, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
E-bost: wg.vaccinationsprogrammeteam@llyw.cymru

Annwyl Gyfaill,

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y cyngor diweddaraf gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu sydd wedi argymell y dylid brechu plant 6 mis oed i 4 oed sydd mewn grŵp risg clinigol (fel y'i diffinnir yn y Llyfr Gwyrdd) rhag COVID-19.

Drwy gydol y pandemig COVID-19, mae astudiaethau wedi dangos bod plant yn llawer llai tebygol o ddatblygu clefyd COVID difrifol nag oedolion hŷn. O ran y mwyafrif llethol o blant, nid yw haint SARS-CoV-2 yn gysylltiedig ag unrhyw symptomau, neu mae'n gysylltiedig â symptomau ysgafn yn unig. Fodd bynnag, mae yna gyfran lai o blant sydd eisoes yn dioddef o gyflyrau iechyd sy'n golygu eu bod mewn mwy o berygl o ddioddef salwch difrifol. Mae'r posibilrwydd o gael eu derbyn i Uned Gofal Dwys Pediatrig yn dioddef o COVID-19 difrifol dros saith gwaith yn fwy i fabanod a phlant ifanc sydd â chyflyrau iechyd isorweddol o'i gymharu â'r rheini nad oes ganddynt gyflyrau meddygol isorweddol.

Felly, mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu wedi cynghori fel a ganlyn:

- Dylid cynnig dau ddos 3-microgram o'r brechlyn Pfizer-BioNTech COVID-19 (Comirnaty®), gyda bwlch o 8 wythnos o leiaf rhwng y dos cyntaf a'r ail ddos, i blant 6 mis oed i 4 oed sydd mewn grŵp risg clinigol (fel y'i diffinnir yn y Llyfr Gwyrdd). Dylid sicrhau bod o leiaf pedair wythnos o fwlch rhwng unrhyw ddos o'r brechlyn a haint SARS-CoV-2 diweddar.

Mae'r llythyr hwn at sylw gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am gomisiynu a gweithredu'r rhaglen brechu rhag COVID-19 yng Nghymru. Rydym yn eich annog i rannu'r canllaw hwn gyda phawb sy'n gysylltiedig â gweithredu'r rhaglen yn eich ardal.

**Dyddiad dechrau'r rhaglen**

Bydd y Byrddau Iechyd yn dechrau gwahodd plant cymwys i gael eu brechu ym mis Mai 2023. Dylid cynnig y cwrs sylfaenol yn seiliedig ar y bylchau amser a nodir yn y Llyfr Gwyrdd.

**Cyllid**

Mae Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd wedi cael gwybod am eu dyraniadau cyllidebol ar gyfer brechu rhag COVID-19 yn ystod 2023-24 drwy lythyr gan Sioned Rees, Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd.

**Cyflawni**

Mae Rhaglen Frechu Cymru yn cynllunio ac yn goruchwylio sut mae pob rhaglen frechu yng Nghymru yn cael ei gweithredu.  Bydd yn cadarnhau'r fframwaith gweithredu ar gyfer rhoi brechiadau COVID-19 i blant 6 mis oed i 4 oed sydd mewn grŵp risg clinigol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch unwaith yn rhagor i bawb am eu gwaith diflino wrth barhau i weithredu'r rhaglen brechu rhag COVID-19. Mae eich cymorth i

weithredu’r rhaglen yn helpu i sicrhau bod pobl Cymru yn cael eu diogelu. Diolch o galon ichi.

Yn gywir,

Syr Frank Atherton
Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru